O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1890 (Cy. 184)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/2716) (Cy. 245). Maent yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru godi ffioedd am gymryd samplau swyddogol, neu am oruchwylio'r broses o'u cymryd, ac am gynnal profion sy'n ofynnol o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 584/2008 (OJ Rhif L 162, 21.6.2008, t 3).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1890 (Cy. 184)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed *20 Gorffennaf 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *23 Gorffennaf 2010*

Yn dod i rym *13 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy gan adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) gyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriad at yr offeryn UE yn y Rheoliadau hyn gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2010.

(2) Maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Deuant i rym ar 13 Awst 2010.

(**1**) 1973 p. 51.
(**2**) 1972 p. 68; mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

Diwygio

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008(**1**) yn unol â pharagraff (2) o'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2 (Dehongli) yn y diffiniad o "samplau rheoli swyddogol"—

(i) hepgorer "neu" ar ddiwedd paragraff (b);

(ii) hepgorer yr atalnod llawn ar ddiwedd paragraff (c) a rhodder "; neu" yn ei le;

(iii) ar ôl paragraff (c) mewnosoder—

"(ch) pwynt 1(b)(iii) o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 584/2008 sy'n gweithredu Rheoliad 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn tyrcwn(**2**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.".

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

20 Gorffennaf 2010

(**1**) O.S. 2008/2716.
(**2**) OJ Rhif L 162, 21.6.2008, t 3.